




Llun: Keith O'Brien
Gloywlyn yn y cefndir



Yn y 70au cynhaliwyd arolygon manwl gan y Cyngor Gwarchod Natur (ar y pryd) i gynefin geifr y Rhinogydd. Mwy yn un o rhifynnau i ddod

Jinipedars ag ati

Tybed ydi jinipedars yn dal i flodeuo yn Arfon? Chlywais i mo'r gair fy hun, ond ei loffa yn "Atgofion" gwerthfawr T. Hudson-Williams am Gaernarfon, a hoffi'r gair. Mae OM Edwards yn egluro yn un o'i lyfrau mai at y blodyn yn unig oedd y gair yn cyfeirio yn iaith ei fro, ac mai lecsen oedd yn mynd i'r crochan i wella blas lobscows neu botes. Mae'n amlwg mai benthyciad o'r Saesneg yw hwn ac mae'n bosibl fod gwg puryddion, fel gwynt coch Amwythig wedi'i ladd erbyn hyn. Soniodd Edward Llwyd gynt am barodwydd gwŷr y Gororau i fabwysiadu geiriau Saesneg a'u Cymreigio drwy ychwanegu terfyniadau brodorol. Mae'n amlwg nad ddod nag echdoe y benthyciwyd y gair. Mae'r ffurf yn sicr o fynd yn ôl rai canrifoedd. Beth oedd ei ddsbarthiad daearyddol? Rhaid cofio bod dyffrynnoedd Dyfrdwy, Hafren a Gwy yn ein harwain i Loegr ac mai mudo i diroedd bras yn Lloegr fu breuddwyd llawer o ffermwyr uchelgeisiol Maldwyn a godre'r Berwyn.

Mae hen draddodiad o fasnachu ar draws Clawdd Offa: porthmona yw'r enghraifft amlycaf ond rhaid cofio'r medelwyr a merched y gerddi, a fyddai'n mynd yn eu tro i ychwanegu at eu henillion prin yn siroedd Caer, Amwythig a Henffordd. Mor ddiweddar â'r 80au, roedd gwraig oedranus o Fronant yn cofio Ceintun oedd ffurf Gymraeg Kington yn ymyl plasty enwog Hergest.

Garleg yw ystyr *kignen*, cytras Llydaweg y gair cennin ac mae ail sillaf y gair *garlic* yn deillio o ffurf ddiacen o'r gair *leek*. Mae jinipedars wedi cael croeso gan Bruce yn ei Eiriadur yng nghwmni ryw ugain o enwau eraill; mae'n debyg iddo'u cael yn fwndel taclus yng nghasgliad Gwen Awbery o enwau blodau.

Humphrey Lloyd Humphries, Llydaw

Nid hyrddod ond ramsons Pan welais y gair *rams* gyntaf, yr oeddwn yn credu mai camgymeriad oedd, oherwydd anaml iawn y bydd geiriadur yn gosod ffurf luosog gair ar y dechrau - ymhellach ymlaen yn yr eglurhad y ceir hwnnw. Ond, wedi edrych, dyma sylweddoli nad 'hyrddod' oedd y 'rams' yma, ond yn hytrach gair Saesneg a pherthnasau lawer ganddo yn ieithoedd gogledd Ewrop, a'i fod hefyd, yn ôl y geiriadur, yn perthyn i 'Welsh craf', sef garleg gwyllt (*wild garlic*). Mae'n weddol hawdd gweld sut yr aeth RAMS yn CRAF - mae'r R yn y ddau, ac mae digon o enghreifftiau o M yn mynd yn F (prime > prif, cymanfa > cyfanfa, ar lafar, etc). Mae CRAF, wrth gwrs, yn digwydd yn bur aml mewn enwau lleoedd: CRAFLWYN (Y Rowen a Beddgelert), CRAFTANT (y llyn a'r afon ger Trefriw), CRAFGOED (ym Môn) ac Aber-craf (ger Ystradgynlais). Yn ôl un awdurdod yr un elfen sydd yn CREMONA yn yr Eidal - tref Antonio Stradivari, y gwneuthurwr ffidlau bydenwog a'i feibion. Yn Lloegr hefyd mae RAMS i'w weld yn RAMSBOTTOM (Wild garlic valley), RAMSDALE, RAMSEY



(ynys y garleg), a chlywch: CRAVEN (Swydd Efrog) - 'possibly derived from Welsh craf 'garlic' Aled Jones, Rhuddlan (o gylchlythyr CELL)

Cwestiwn...

Be 'di'r gwahaniaeth rhwng ciconia a cicaion? Ateb: dim ond y ciconia welodd Alun Williams yng Nghemaes, Môn



ar y 11 Ebrill 2010. Meddai Alun: "roeddwn ddigon lwcus i weld dau giconia gwyn ar fore Sul, Ebrill 11eg." Meddai'r adarydd Rhys Jones ar y 21 Ebrill: "Mwy am hanes y ddau Giconia oddi ar Birdguides: *Two (presumed wild) White Storks were noted, initially at Muchelney (Somerset) early on 9th before appearing near Burnham-on-Sea and then across the Severn Estuary, at Rogerstone (Gwent), later the same day. By the afternoon of 10th, they had found their way to Anglesey, where they remained to the morning of 11th before moving to Conwy [Llansannan] later in the day. Single White Storks (origins unknown) were seen in Lothian, Cleveland, Derbyshire and Greater Manchester between 8th and 11th, and over Colchester (Essex) and on the edge of the Arne RSPB reserve (Dorset) on 13th. Singles in West Yorkshire on 10th and Clyde and Dumfries & Galloway on 11th were thought to have been escapes*". Dwi'n tybio fod y ddau yma yn cael eu hystyried yn wyllt gan fod rhai eraill sydd wedi denig ag ati yn tueddu i dindroi yn yr un ardaloedd. Mae dau gyda'i gilydd hefyd yn galluogi ni i nodi eu trywydd gyda mwy o hyder hefyd. Gyda llaw mae nifer o'r rhain bellach yn aros yn ne Sbaen a Portiwgal drwy'r gaeaf yn y blynyddoedd diweddar. Mae hi yn adeg pan fo adar sydd yn mudo o Africa i dde Ewrop yn tueddu i hedfan yn rhy bell hyd yn oed hefo gwyntoedd o'r gogledd/dwyrain. Yn y dyddiau diwethaf mae amryw o rywogaethau deheuol wedi troi fyny yn Lloegr: cwpl o gigyddion pengoch, telor Savi, brych y graig glas, siglen benddu, siffsaiff Iberaidd, gwybedog y gwenyn, pengam a nifer o gopogiaid. Hefyd dau aran dros aber y Ddyfi dydd Sadwrn - tybio y bydd tomen o bethau yn troi i fyny ym Mhrydain wrth i'r gwynt fynd i'r de tuag at y penwythnos a dechrau wythnos nesa". A beth am "cicaion" felly? ..."Duw a ddarparodd gicaion, ac a wnaeth iddo dyfu dros Jona, i fod yn gysgod uwch ei ben ef, i'w waredu o'i ofid: a bu Jona lawen iawn am y cicaion". Trawslythreniad Cymraeg William Morgan o'r gair Hebraeg *kikayon* ydyw, *gourd* yn Saesneg, a'i fenthyciad ef o'r Lladin yw cicaion.

Diolch i Tegwyn Jones am ei sylwadau ar y ddau air yn Llafar Gwlad Rhif 106. Annoethion Byd-enwog

Cafwyd trafodaeth ddifrif am enw'r Bwletin, a phenderfynwyd yn y diwedd mai ei gadw fel ag y mae fydd orau. Diolch i bawb a gyfrannodd.

Dau lew tew..



Mwy o luniau o America gan Tom, meddai Harri. Meddai Tom: *This Ranger is assigned to prevent poaching around the wildlife refuge area of Lanseria, South Africa . The way these animals interact with him is absolutely stunning!*

Blwyddyn Dant y Llew

Bu eleni yn arbennig am y blodyn pi-pi gwely. Dyma esboniad Twm Elias o'r ffenomenon: "Tebyg mai'r tywydd oer gafwyd ddechrau'r flwyddyn, sy'n gyfrifol am euro ochrau'r ffyrdd mor drawiadol â blodau dant y llew ganol Mai eleni. Hynny yw, pan geir gaeafau tyner, fel y gafwyd dros y ddau ddegawd diwethaf, bydd tymor blodeuo'r dant y llew yn llawer mwy estynedig, gan gychwyn cyn gynhared â Chwefror/Mawrth ambell flwyddyn, gan fynd ymlaen hyd ganol Mai. Ond pan geir tywydd oer i'w dal yn ôl (onid yw yn dymor hwyr i gymaint o flodau eraill y gwanwyn hefyd?) mi arhosant hyd nes cynhesith y tywydd. A phan ddigwyddith hynny mi fydd y cyfan yn blodeuo hefo'i



gilydd i roi'r sioe ryfeddol welsom ni eleni. Posib y byddai sychder yn cael rhywfaint o effaith hefyd ambell i wanwyn sych, ond am fod gan yr hen ddant y llew wreiddyn dwfn, go brin fod sychder yn cael effaith mor drawiadol â

thymheredd ar y blodeuo. Wyddoch chi y gall un planhigyn dant y llew, dan amodau ffafriol, gynhyrchu hyd at 20,000 o hadau'r tymor? Gall gynhyrchu nifer fawr o bennau blodeuog gyda'i gilydd ar y tro ac fel y bydd y rheiny yn hadu bydd mwy o bennau yn dod i gymryd eu lle drwy'r tymor. Am ei fod yn lluosflwydd, tybed faint o hadau fedr o gynhyrchu drwy ei oes?

Y Gwas Neidr Blewog



If you could find space for this photo of a male Hairy Dragonfly *Brachytron pratense* taken in Anglesey that would be great. I want folks to look out for it across North Wales in May and June as I'm sure it's far more widespread than current records indicate.

Allan Brandon, cofnodwr gweision neidr gogledd Cymru

Caeau a'u siapiau

Llythyr gan E. Williams, Ffestiniog ond cynt o Gwm Cynfal yn sôn am gae ar dir Bron Ronw yng Nghwm Cynfal. Yr enw ar y cae oedd 'Cae Heatar' am ei fod yn siâp triongl. Difyr ynte?

Trwy garedigrwydd Bethan Wyn Jones


Mae enwau caeau yn ymwneud â'u siâp yn digwydd yn aml. Cae Hetar, fel y mae Mrs. Williams yn adrodd, ac yma yn y Waunfawr, Cae Rhegal (hegl = coes aradr, "dog-leg"), Cae (y) Delyn, Cae (y) Big (trionglog) a sawl un arall. Enghreifftiau eraill os gwelwch yn dda ddarllenwyr y Bwletin?

Ffenics bach



Dyma lun o ffenics bach wedi dod o drap gwyfynod Aled Jones, Penrhyndeudraeth ddiwedd mis Ebrill, dyddiad eitha' cynnar. Mae patrwm y gwyfyn hwn fel petai wedi ei orchuddio gan gwrldd o lês.

Mae'r data yn y graff yn dangos y nifer ohonynt a gafwyd wrth drapio'n wythnosol ers 1996 mewn gardd yn y Waunfawr, wedi eu crynhoi i wythnosau'r fwyddyn o 1 i 52. Mae'n dangos yn glir dwy genhedlaeth y gwyfyn hwn, yr ail yn



yr hydref yn llawer mwy na'r gyntaf.

Esgorodd lun Keith O'Brien...

...yn Rhifyn 26 ar wledd o sylwadau difyr a chyfoethog - ond yn gyntaf, cofiwch am y stori hefyd yn Rhifyn 15 am Frain y Person...Pa air mae pobl eich ardal chi yn ei arfer am rookery? Clywais Pentre Brain a Llwyn Brain

...brain yn eu "miliynau" yn Llangollen

14 Gorffennaf 1789: *Millions of Rooks on the mountains of Pengwern consulting I suppose about the weather. I wish I could communicate their observations, or that I could understand their language...* [ar y diwrnod y dechreuodd y Chwyldro Ffrengig a fu'n destun pryder mawr i foneddigesau enwog Llangollen] A Year with the Ladies of Llangollen

Cystadleuaeth cyfieithu Shakespeare!

Dyma Edgar, cymeriad yn nrama'r Brenin Llŷr gan Shakespeare y ei bendro yn rhyfeddu wrth edrych i waelod clogwynni Beachy Head ar arfordir Caint (oes cyfieithiad Cymraeg llawn o'r ddrama?), a gwyllo'r brain islaw:

*Come on, sir; here's the place: stand still. How fearful
And dizzy 'tis, to cast one's eyes so low!
The crows and choughs that wing the midway air
Show scarce so gross as beetles: half way down
Hangs one that gathers samphire, dreadful trade!
Methinks he seems no bigger than his head:
The fishermen, that walk upon the beach,
Appear like mice....*

Dyma gynnig ar gyfieithu'r darn gan un o gyfeillion selocaf prosiect Llên Natur (sy'n rhy swil i gyhoeddi ei enw!):

'Dowch, syr, dyma'r lle! - arhoswch yn fanna. Mor frawychus

Ydi edrych i lawr mor isel!

'Dyw'r brain - cyffredin a choesgoch* - sy'n gwau drwy'r awyr ganol

Yn fawr fwy na chwilod: a hanner ffordd i lawr

Mae un sy'n casglu ffenigl y môr - arswydus waith!

Ac nid ymddengys fawr fwy na'i ben:

A'r pysgotwyr ar y traeth ond megis llygod ...'

Dewch feirdd a dramodwyr - mireiniwch! Beth am drosiad rhydd i gyfleu pendro Edgar?

* Hen air y Saeson am jac-y-do oedd *chough*. Ni wyddys pryd newidiodd yr ystyr i fran goesgoch ond dyma ddywed yr OED: This [the red-legged crow] may have been Shakespeare's chough in Lear, the bird, now rare at Beachy Head, was abundant on all the Sussex cliffs a century ago, and may well have been common on the Kentish coast at an earlier date. *Daw* oedd enw arall ar *jackdaw* yn y 15fed ganrif.

Mae cyfeiriad arall gan Shakespeare i frain, yn Macbeth:

*...Light thickens, and the crow
Makes wing to the rooky wood;
Good things of day begin to droop and drowse,
Whiles night's black agents to their preys do rouse."*

William Shakespeare, Macbeth, 3.2

Beth am roi cynnig ar ei gyfieithu? Cyfieithodd Thomas Gwynn Jones y ddrama gyfan - ond peidiwch ag edrych, efallai y bydd eich cynnig chi yn well! Mwy yn Y Bwletin nesaf.....

...a brain y glaslanc Robin Gwyndaf....

'Ystyriwch y brain: nid ydynt yn hau nac yn medi; nid oes ganddynt ystordy nac ysgubor, ac eto mae Duw yn eu bwydo...' Geiriau'r Iesu. Luc 12:24

Hen adar bras ydyw'r brain; - adar gwawd;

Adar gwyllt, amhersain;

Ond er mor ddu a thruain,

Ei adar Ef ydyw'r rhain.

Gyda diolch i Robin Gwyndaf am rannu cerdd a ysgrifennodd pan yn 18-20 mlwydd oed.

Llyswennod, carrai 'sgidia a rhawn ceffyl



Llun: Sion Roberts

"Erbyn hyn yr oeddwn i'n edrych i ddyfnderau'r llyn. 'A oes llysywod ynddi?' gofynnais. "Mi ddeliais i un y llynedd oedd a digon o gig arni i'r fedel am ddau ddiwrnod. 'A fling'soch chi hi?' gofynnais. 'Wel do, wrth gwrs, ac mi werthais ei chroen hi i lady o Lundain am bum punt.' 'Beth y mae'r ladies yn ei wneud â chrwyn llysywod?' gofynnais mewn syndod. 'O groen llysywen y maen' nhw'n cael careiau i'w hesgidiau gorau,' oedd yr ateb di-wrid; 'ac y mae careiau croen llysywen yn para am oes,' ychwanegodd."

Fred Jones (Y Cilie, 1977) Hunangofiant Gwas Fferm

'Slywen, llysywen: pysgodyn môr sydd yn gallu byw o fewn dŵr croyw, yn wahanol i'r eog a'r sewin sydd yn bysgod dŵr croyw sydd yn gallu byw yn y môr. Mae pob slywen dros 40cm yn fenywaidd. Nid ydynt mor gyffredin



nawr. Enw arall yw llysywen rawn:

"a freshwater eel often found in horse ponds. . . Believed to develop from horses tails. Notion that if 'rhawn' (horsetails) be pulled out by the root and put in the pond it will grow into eels."

Morris. William Meredith. 1910. A glossary of the demetian dialect of north Pembrokeshire.

This is an old wives tale in England also - that eels grew from horsetail (*Equisetum*) - a plant that grows in ponds, and wet ground"

Sylwadau gan Sion Roberts Pan oeddwn (DB) yn fachgen bu'n arfer gennym

ymweld â phistyll Cerrig y Rhyd i weld y miloedd o 'slywod bach yn berwi yn y dŵr ar eu taith rhwng Môr y Sargasso a blaenau'r Wyrfai".


Stribedi Cerrig eto



Lat: N 53° 2.70', Long: W 4° 9.87'.
Altitude: 655m.
Date/time: 2010:04:24 11:29

Diolch i Jeremy Williams am y llun uchod. Meddai Jeremy: *Some stone stripes on Y Garn, Rhyd-Ddu, evidence of continuing peri-glacial (freeze-thaw) processes.*


Gwanwynau hwyr diweddar



Meddwn i wrth Huw: "I've never had such a struggle growing veg in the garden (DB)...Atebodd Huw fel hyn: *I'm not surprised...not only are soil temperatures far behind other years (a parallel was 1986 when spring*

was also very late, even later than this one by a week or so), but the dry April means little moisture in the top soil for growth. We had 17 grass frosts in April (and 2 air frosts)

ebost Huw Holland



Dyma wanwynau hwyr eraill i gymharu gwanwyn eleni â hwy Cofnododd Jeremy Williams eira yn 19 o fisoedd Mai ers iddo ddechrau cofnodi yng ngogledd Cymru, gan gynnwys 1986. Meddai Jeremy "I suppose it depends how hard people are looking for it!..."*Last night's snow [3 Mai 2010] formed a cover down to around 650m this morning".*

ebost Jeremy WilliamsData Huw Holland Jones

Cofiwch bod Llen Natur bellach ar Facebook